# Ffilm Cymru Wales
# Arian Datblygu 2022-23
# Canllawiau

Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... 2

**Anghenion Mynediad** .......... 2

**Manylion Cyswllt** .......... 2

**Nodau ac Amcanion** .......... 3

**Cymhwysedd** .......... 4

**Meini Prawf** .......... 5

**Y Dull Ymgeisio** .......... 6

**Penderfyniadau Ariannu** .......... 7

**Dyfarniadau ac Amodau** .......... 7

**Manylion Cyswllt** .......... 8

**Atodiad** .......... 9

# Cyflwyniad

## Anghenion Mynediad

I ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion B/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu'n bobl niwroamrywiol, a phobl sydd â nam ar eu golwg, mae rhagor o gefnogaeth ar gael er mwyn cwblhau cais. Er enghraifft, gallwn gyflenwi costau dehonglwr BSL er mwyn i chi cynnal cyfarfod gyda ni cyn i chi wneud cais, neu gynnig cefnogaeth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Sylwch na allwn gyflenwi costau ble mae cyllid arall eisoes ar gael e.e. cefnogaeth Mynediad i Waith. Ni allwn chwaith gyflenwi costau prynu caledwedd neu feddalwedd.

I'r rheiny sydd ag angion mynediad, gallwn hefyd dderbyn ffurflenni cais drwy'r post, neu atebion mewn fformatau amgen fel fideo byr neu ddec sleidiau. Dylid cytuno ar y fformat gyda ein tîm cyn cyflwyno'r cais.

Cysylltwch â ni, gan ddefnyddio'r manylion isod er mwyn trafod eich anghenion cyn i chi wneud eich cais.

## Manylion Cyswllt

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â:

**Ihsana Feldwick**
Cydlynydd yr Adran Dalent
ihsana@ffilmcymruwales.com

# Nodau ac Amcanion

Sefydlwyd Ffilm Cymru Wales er mwyn adnabod a meithrin y dalent a aned a/neu sy’n byw yng Nghymru, a galluogi’r dalent honno i wneud ffilmiau. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar gefnogi cynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr o Gymru.

Bydd disgwyl i’r ymgeiswyr llwyddiannus weithio gyda Ffilm Cymru Wales i echdynnu ac ychwanegu gwerth i’w prosiectau drwy ddefnyddio’r dull Magnifier o ariannu sy’n ceisio:

- Defnyddio dull systematig i adnabod y mathau eang ac amrywiol o werth posibl prosiectau
- Annog rhoi ystyriaeth i’r gynulleidfa darged, a sut y gellir cysylltu â hi, yn gynnar iawn yn y broses
- Adnabod y rhwystrau posib (e.e. gallu cynhyrchu’r cwmni, rhwydweithiau, cyllid) er mwyn sylweddoli’r gwerth hwn
- Hybu diwylliant sy’n rhannu’r hyn a ddysgir, a gwella’r rhwydweithiau ledled yr is-sectorau.

Er nad yw’n hanfodol, ‘rydym yn awyddus i annog cynnwys diwylliannol Cymreig gyda ffilmiau sy’n adlewyrchu Cymru a’r bywyd Cymreig, gan geisio sicrhau llechen o brosiectau mewn datblygiad sy’n amrywiol ac yn berthnasol. ‘Rydym hefyd yn awyddus i gynnig cefnogaeth i ddatblygu prosiectau yn yr iaith Cymraeg.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn cyflwyno 10-12 dyfarniad datblygu ar gyfartaledd bob blwyddyn, gan bennu dau ddyddiad y flwyddyn ar gyfer derbyn ceisiadau datblygu – mae’r manylion perthnasol i’w gweld ar dudalen hafan ein gwefan.

Mae Ffilm Cymru Wales yn cynnig:

- Datblygu a chynhyrchu ffilmiau nodwedd drwy ein dull unigryw, Magnifier
- Cyngor a chymorth penodol i bob prosiect
- Datblygu a mentora proffesiynol
- Cyngor, nawdd a gwybodaeth ar sut i ecsbloetio Eiddo Deallusol ac ymestyn brand ffilmiau, gan gynnwys cyfleoedd traws-gyfryngol, a chyfleoedd sy'n ymwneud â marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol
- Cyngor a chymorth gyda Chysylltiadau Cyhoeddus/brandio a marchnata

## Cymhwysedd

Bydd ceisiadau am arian yn cael eu derbyn dwywaith y flwyddyn (er y gallwn edrych ar brosiectau a ariannwyd yn flaenorol y tu allan i'r terfynau amser hynny, wrth ystyried dyfarniadau atodol).

Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan unigolion (am gostau datblygu sgript), gan gynhyrchydd neu gan gwmni cynhyrchu.

Mae'n rhaid i'r holl geisiadau gwrdd â'r meini prawf sydd i'w gweld yn ein canllawiau.Mae Ffilm Cymru Wales yn annog cyfranogiad gan ariannwr trydydd parti.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn cyfrannu hyd at 75% o holl gostau datblygu'r prosiect (neu hyd at 100% ar sail cyfraniadau a wneir mewn da gan yr ymgeisydd, sy'n cynrychioli 25%).

## Meini Prawf

Wrth ddewis y prosiectau byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Ansawdd, potensial a gwreiddioldeb y gwaith
- Y manteision i wneuthurwyr ffilm o Gymru
- Er nad yw'n hanfodol, byddwn yn ystyried sut bydd cynnwys diwylliannol Cymreig – Cymru a'r bywyd Cymreig - yn
- cael eu darlunio
- Hyfywedd ac ymarferoldeb y prosiectau o ran cyllideb a phartneriaethau ariannol, a gallu'r personel creadigol
- allweddol
- Gallu'r prosiect i gael ei gymhwyso fel ffilm Brydeinig. Mae'r manylion am gymhwysedd i'w gweld ar wefan y BFI
- Apêl y prosiect yn y farchnad. Bydd disgwyl i bob cais ddangos cynulleidfa graidd amlwg a chyraeddadwy, a sut y
- gellir ei chyrraedd
- Rhychwant a nifer y prosiectau sydd eisoes yn cael eu cefnogi gan Ffilm Cymru Wales

Fel rhan o driniaeth systematig Magnifier byddwn hefyd yn ystyried:

- Hyfywedd a photensial ffurfiau eraill o ED parthed y farchnad, y bydd yr ymgeiswyr yn dymuno eu hecsbloetio
- Yr achos dros allu cynhyrchu ychwanegol i'r cwmni, a sut fyddai hyn yn effeithio ar dwf eich cwmn

Yn ogystal â'r uchod, mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd yn 1998) wedi sefydlu cyfarwyddiadau sy'n rhaid i Ffilm Cymru Wales eu dilyn wrth asesu ceisiadau.

Gweler yr Atodiad. O bryd i'w gilydd byddwn yn chwilio am geisiadau ac yn datblygu cynigion gyda mudiadau ac unigolion trydydd parti sy'n dymuno archwilio mentrau diwydiannol newydd traws-gelfyddydol, traws-greadigol.

## Y Dull Ymgeisio

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â ni.

Gall ymgeiswyr geisio am arian ddwywaith y flwyddyn (bydd y dyddiadau cau i'w gweld ar dudalen hafan ein gwefan)

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen gais (y gellir ei llawr lwytho o'n gwefan), a'r deunydd ategol canlynol:

- Crynodeb (o leiaf un paragraff)
- Triniaeth o 8-10 tudalen a
- Sgript: naill ai drafft o'r prosiect 'rydych yn ceisio arian datblygu ar ei gyfer neu, os ydych yn gwneud cais gyda thriniaeth yn unig, bydd angen enghraifft o waith yr awdur - o hyd nodwedd os yn bosib.
- Unrhyw ddeunydd gweledol, enghreifftiau o waith y cyfarwyddwr, byrddau naws, ayb.
- Manylion cytundeb opsiwn/hawliau gwaelodol
- Cyllideb gyflawn (sydd wedi ei hatodi i'r ffurflen gais)

Bydd rhestr hir o ymgeiswyr yn cael ei dewis bob dyddiad cau (tua 10 ymgeisydd) a'u gwahodd i ymuno â diwrnod carfan Magnifier, ble fydd arbenigwyr o'r diwydiant yn ceisio adnabod gwir botensial eich prosiect.

## Penderfyniadau Ariannu

Yn y lle cyntaf bydd rhestr hir o ymgeiswyr yn cael eu hadnabod a'u gwahodd i gymryd rhan yn niwrnod Carfan Magnifier Ffilm Cymru Wales.

Er nad yw mynychu'r dyddiau hyn yn orfodol, nag yn dylanwadu ar ein penderfyniadau ariannu, 'rydym yn annog i'r gwahoddedigion fod yn bresennol os yn bosib.

Mae penderfyniadau ariannu hyd at £24,999.99 yn cael eu gwneud gan aelodau o dîm talent Ffilm Cymru Wales.

Bydd y penderfyniadau ariannu am symiau rhwng £25,000 a £49,999 yn cael eu gwneud gan aelodau'r tîm talent uchod, a naill ai Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Bwrdd Ffilm Cymru Wales. Bydd penderfyniadau ariannu sy'n fwy na £50,000 yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y bwrdd.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau drwy e-bost, a phan fo prosiect yn aflwyddiannus bydd eglurhad byr hefyd yn cael ei gynnwys.

## Dyfarniadau ac Amodau

Bydd cynigion ariannol yn parhau ar agor am gyfnod penodol (6 mis fel arfer) fydd yn cael ei nodi yn y llythyr o gynnig.

Os na fydd yr arian yn cael ei dynnu i lawr yn ystod y cyfnod hwn, efallai bydd y cynnig yn cael ei ddiddymu.

Bydd y prosiectau a ariennir yn amodol ar gytundeb datblygu fydd yn cynnwys amserlen dalu a gytunwyd arni, a thargedau datblygu penodol.

Dylid nodi y bydd buddsoddiad Ffilm Cymru Wales yn cael ei ddigolledu pan fydd y prosiect yn symud ymlaen i'w gynhyrchu, a dylid ei ad-dalu ar ddiwrnod cyntaf y brif ffotograffiaeth neu unrhyw ecsploetiaeth arall. Mae premiwm o 50% i'w ad-dalu ar yr holl gronfeydd datblygu.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn chwarae rhan ymarferol a chreadigol yn y gweithgareddau. Bydd rhaid i Ffilm Cymru Wales gymeradwyo pob cytundeb ariannol a phob newid arwyddocaol i'r prosiect.

## Manylion Cyswllt

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â:

**Ihsana Feldwick**
Cydlynydd yr Adran Dalent
ihsana@ffilmcymruwales.com

Ffilm Cymru Wales,
W2, Wellington House, Wellington Street, Cardiff CF11 9BE

## Atodiad

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd yn 1998) yn amlinellu'r prif feini prawf rhaid eu hystyried wrth drafod ceisiadau ariannol. Mae Ffilm Cymru Wales yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

**Safon Artistig**
Ffilm Cymru Wales seeks to support original and dramatic filmmaking.

**Budd Cyhoeddus**
Gellir cyflawni hyn drwy amrywio amrediad y deunydd sinematig a ddarperir; rhoi proffil i dalent newydd, neu wella cynrychiolaeth cymunedau nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol, er enghraifft.

**Datblygiadau Newydd**
Ni chaniateir amnewid arian y loteri. Hynny yw, ni ddylai gymryd lle ffynonellau ariannol eraill sydd ar gael ar gyfer unrhyw brosiect penodol. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad pellach i brosiectau. Gellir defnyddio ein harian mewn partneriaeth ag arianwyr Loteri eraill, yn amodol ar gap cyffredinol o 50% o ffynonellau Loteri.

**Hyfywedd Ariannol**
Byddwn yn ystyried hyfywedd ariannol y prosiect, a chydnawsedd gwahanol elfennau ariannol telerau nawdd y Loteri. Bydd angen i'r ceisiadau feddu ar gyllidebau sy'n addas ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect, a'r farchnad derfynol.

**Partneriaethau Ariannol**
Bydd rhaid i'r ymgeiswyr ddangos cadarnhad ysgrifenedig o bartneriaethau ariannu a manylion o'r telerau a'r amodau.

Nid yw'n debygol y bydd arian cynhyrchu yn cael ei gynnig os nad oes elfen o bartneriaethau ariannu yn bodoli.

**Galw Amlwg**

Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi prosiectau ffilm sy'n dangos eu bod yn debygol o gael eu dosbarthu. Nid yw prosiectau sy'n annhebygol o gael eu dosbarthu yn debygol o fod o fudd i'r cyhoedd gan fethu cwrdd â meini prawf ariannu'r Loteri. Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi amrediad eang o ffilmiau o ran genres a chyllidebau, ond ym mhob achos dylai'r prosiectau feddu ar gyllidebau addas, gan adlewyrchu'r potensial tebygol o ran cynulleidfa. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gynnwys ffigyrau gwerthu, wedi eu cyflenwi gan asiantaeth gwerthu profiadol a/neu dystiolaeth o ddiddordeb gan Ddosbarthwr Prydeinig.

**Rheolaeth Effeithiol**

Mae Ffilm Cymru Wales yn gyfrifol am wariant arian cyhoeddus, ac felly rhaid i'r corff fodloni ei hun fod yr ymgeisydd yn debygol o drosglwyddo'r gwaith yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, gan ddefnyddio'r arian ar gyfer y diben a fwriadwyd.